This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

1419 e. 6118 Cyfarwyddiadau ac annogaethau i Gredinwyr.

Digitized by Google

Digitized by Google

1419 e. 6118
Digitized by Google

Digitized by Google

CYFARWYDDIADAU

AC

Annogaethau i Gredinwyr,

I RODDI

CWBL DDIWYDRWYDD

I WNEUTHUR EU

GALWEDIGAETH A'U HETHOLEDIGAETH YN SICR,

A GASGLWYD, YN BENAF,

Allan o Waith y Parch. JONATHAN EDWARDS, o Loegr Newydd;

SEF, EI

"DRAETHAWD AR SERCHIADAU CREFYDDOL:"

AC

ESPONIAD Y Dr. OWEN AR PSALM CXXX.

GAN JOHN ROBERTS.

BALA

ARGRAFFEDIG GAN R. SAUNDERSON.

1809.

(Pris Tair Ceiniog.)

Digitized by Google

Bt from widow of Bob Owen, Croesor.

Digitized by Google

AT YR

EGLWYS A'R GWRANDAWYR,

ARFEROL O

YMGYNNULL YN YR HEN GAPEL,

LLANBRYNMAIR.

Anwyl Frodyr a Chymmydogion,

YR wyf yn hyderu y gallaf ddywedyd, ger bron Duw, nad oes un peth mor agos at fy nghalon yn fynych, ag iechydwriaeth eich heneidiau. Yr wyf yn ystyried fod y berthynas sydd rhyngof â chwi, yn agosach na'r berthynas sydd rhwng pob gweinidog a phobl ei ofal. Yn eich plith chwi yn gyntaf cefais le ac enw yn nhŷ Duw, ac y dechreuais gael fy magu â didwyll laeth y gair ——gyda chwi yr wyf yn dymunaw ac yn bwriadu treulio fy holl ddyddiau——ac y'nghymdeithas rhai o honoch, yr wyf yn gobeithiaw treulio tragywyddoldeb o ddedwyddwch. Mae y caredigrwydd mawr yr ydych yn wastadol wedi ei ddangos tuag ataf, a'ch parodrwydd parâus i weini er fy nghysur, yn chwanegu fy rhwymau i'ch caru a'ch gwasanaethu. Eich llês chwi, yn benaf, oedd yn fy

Digitized by Google

agolwg wrth ysgrifenu yr ystyriaethau canlynol. Yr wyf yn hyderu fod rhai o honoch yn cael mesur o foddlonrwydd, ar seiliau da, am eich hawl yn Nuw;—ond mae lle i chwi gael ychwaneg etto, trwy rodio yn agosach at yr Arglwydd.....Mae rhai o honoch yn ammheuus am eich cyflwr;—ond'nid oes achos i chwi aros mewn ammheuaeth. Mae llwybr yn cael ei nodi o'ch blaen, i chwi gael boddlonrwydd a gorfoledd.....Ond y mae llawer o honoch na bu gwasgfa erioed ar eich meddwl am bethau tragywyddol:—Yr ydych yn ddifater am iechydwriaeth eich heneidiau gwerthfawr!—O, cofiwch, mae angeu yn agosâu; ac i'r annuwiol digofaint Duw yn sicr a ganlyn! Ond mae breichiau Crist yn agored—flowch iddynt am eich bywyd, cyn i nos angeu eich gorddiwes!.....Ar i'r Arglwydd fendithio y llyfran bychan yma, er eich llesâad tragywyddol, yw dymuniad a gweddi

Eich Cyfaill Caredig, a'ch

Gwasanaethwr yn yr Efengyl,

JOHN ROBERTS.

LLANBRYNMAIR,
Medi 18, 1809.

Digitized by Google

Cyfarwyddiadau, &c.

MAE yn ddilys oddiwrth yr ysgrythyrau sanctaidd, y dichon credinwyr gael llawn sicrwydd gobaith yn y byd yma o ddedwyddwch yn y byd sydd yn dyfod. Mae yn amlwg ei fod yn beth cyffredinol i'r saint, y mae hanes am danynt yn y Bibl, gael cyflawn foddlonrwydd am eu cyflyrau. Hysbysodd Duw, gyda 'r eglurdeb mwyaf, i Noah, Abraham, Isaac, Iacob, Moses, Daniel, ac ereill, eu bod yn eiddo neilldyol iddo ei hun. Mae Iob yn aml, yn y modd mwyaf eglur a phendant, yn dywedyd am sicrwydd ei hawl yn Nuw, a'i obaith diysgog am y nefoedd: "Canys myfi a wn fod fy mhrynwr yn fyw, ac y saif yn y diwedd ar y ddaear." Iob 19. 25. Mae Dafydd, agos trwy holl lyfr y Psalmau, yn dywedyd yn y modd mwyaf diammheuol, fod yr Arglwydd yn Dduw iddo, ac yn gorfoleddu ynddo, fel ei ran, ei etifeddiaeth, ei darian, ei iechydwriaeth, a'i wobr mawr iawn.

Mae yr Arglwydd Iesu, yn ei ymddyddan olaf â'i ddysgyblion, yn tystiolaethu ei neilldyol a'i dragywyddol gariad tuag atynt; ac yn addaw iddynt, yn y modd mwyaf eglur a chadarn, y caent fod yn gyfranogion o'i ogoniant. Ioan xiv, xv, xvi. Mae yn amlygu, mai ei ddyben yn dywedyd y pethau

Digitized by Google

hyn wrthynt, oedd, fel y byddai eu llawenydd yn gyflawn: " Hyn a ddywedais wrthych, fel yr arhosai fy llawenydd ynoch, ac y byddai eich llawenydd yn gyflawn." Ioan 15. 11. " Y pethau hyn a ddywedais wrthych, fel y caffech dangnefedd ynof. Yn y byd gorthrymder a geweh, eithr cymerwch gysur, myfi a orchfygais y byd." pen. 16. 33. Nid oedd ofn ar yr Iesu i ddywedyd yn rhy eglur am y pethau hyn. Nid oedd yn chwennych cadw ei ddysgyblion mewn ammheuaeth am eu cyflyrau. Ac mae yn diweddu y cymdeithasiad ardderchawg hwn, mewn gweddi yn eu gwydd, yn yr hon mae yn dywedyd wrth ei Dad sanctaidd, yn eglur am ei ddysgyblion, eu bod wedi ei adnabod, wedi credu ynddo, wedi cadw ei air; nad oeddynt o'r byd; a'i fod yn ewyllysiaw iddynt gael bod gydag ef mewn gogoniant. Ei ddyben yn llefaru y pethau hyn oedd, fel y caffent ei lawenydd ef yn gyflawn ynddynt eu hunain. pen. 17. 13. Oddiwrth hyn mae yn dra amlwg fod Iesu Grist yn ewyllysiaw i'w saint gael cyflawn sicrwydd o'u hawl i ogoniant tragywyddol.

Mae yr apostol Paul, drwy ei holl epistolau, yn sicrâu ei berthynas â Iesu Grist, a'i hawl ynddo fel ei waredwr, a'i ddysgwyliad diysgog am ogoniant gydag ef yn y nefoedd. Byddai agos yn ddiddiwedd enwi y manau lle mae yn gwneuthur hyny. 2 Tim. 1, 12. " Canys mi wn i bwy y credais, ac

Digitized by Google

y mae yn ddiammeu genyf ei fod ef yn abl i gadw yr hyn y roddais ato erbyn y dydd hwnw."---- 2 Tim. 4. 7. " Mi a ymdrechais ymdrech dêg, mi a orphenais fy ngyrfa, mi a gedwais y ffydd. O hyn allan rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnw."---2 Cor. 5. 1. " Canys ni a wyddom os ein daearol dŷ o'r babell hon a ddattodir, fod i ni adeilad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd."

Mae yn amlwg hefyd, oddiwrth natur a threfn sanctaidd y cyfammod gras, bod Duw wedi gofalu i roddi modd i'w blant gael boddlonrwydd am eu cyflyrau, neu lawn sicrwydd gobaith: " Yn yr hyn, Duw yn ewyllysiaw yn helaethach ddangos i etifeddion yr addewid ddianwadalwch ei gynghor, a gyfryngodd trwy lw: fel trwy ddau beth dianwadal, yn y rhai yr oedd yn anmhossibl i Dduw fod yn gelwyddog, y gallem ni gael cysur cryf, y rhai a ffoisom i gymeryd gafael yn y gobaith a osodwyd o'n blaen." Heb. 6. 17, 18. Gwelwn fod Duw, yn ol y cyfammod, yn ewyllysiaw i'w eiddo gael cysur cryf, yn eu hadnabyddiaeth o'u hawl yn mhethau Duw. Mae y cyfammod wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr, yn mhob peth, i'r dyben hwn: ond nis gallant gael y cysur cryf yma, heb adnabyddiaeth o'u hawl ynddynt. Oblegid nis dichon addewidion a llw Duw, er mor sicr a dianwadal y byddont, roddi

Digitized by Google

cysur cryf i neb yn mhellach nag y gallont wybod fod ganddynt hawl ynddynt.

Mae yn amlwg hefyd fod sicrwydd yn gyrhaeddadwy, o herwydd fod y saint yn gyffredinol yn cael eu hannog a'u cyfarwyddo i roddi pob diwydrwydd i wneuthur eu galwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr. 2 Petr 1. 4—8. A golygir ef felpeth hollol feius yn y Corinthiaid, eu bod heb wybod pa un a oedd Iesu Grist ynddynt ai peidio. 2 Cor. 13. 5. Mae yr ysgrifenwyr sanctaidd yn rhoddi ar lawr, yn y modd mwyaf eglur, y ffordd mae y saint yn gyffredinol i gael gafael ar y tŵys gwerthfawr yma, sef llawn sicrwydd gobaith: "A nyni a dderbyniasom, nid ysbryd y byd, ond yr ysbryd sydd o Dduw; fel y gwypom y pethau a raddoddwyd i ni gan Dduw." 1 Cor. 2. 12.—"Ac wrth hyn y gwyddom yr adwaenom ef, os cadwn ni ei orchymynion ef." 1 Ioan 2. 3.—"Eithr yr hwn a gadwo ei air ef, yn wir yn hwn y mae cariad Duw yn berffaith. Wrth hyn y gwyddom ein bod ynddo ef." 1 Ioan 2. 5.—"Nyni a wyddom ddarfod ein symud ni o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru y brodyr. Yr hwn nid yw yn caru ei frawd, y mae yn aros yn marwolaeth. Ac wrth hyn y gwyddom ein bod o'r gwirionedd, ac y sicrhâwn ein calonau ger ei fron ef." 1 Ioan 3. 14, 19. —"A'r hwn sydd yn cadw ei orchymynion ef, sydd yn trigo ynddo ef, ac yntau ynddo yntau.

Digitized by Google

Ac wrth hyn y gwyddom ei fod ef yn aros ynom, sef o'r Ysbryd a roddes efe i ni." 1 Ioan 3. 24.—"Wrth hyn y gwyddom ein bod yn trigo ynddo ef, ac yntau ynom ninnau, am ddarfod iddo roddi i ni o'i Ysbryd." 1 Ioan 4. 13.—"Ni a wyddom ein bod o Dduw, ac y mae yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni." 1 Ioan 5. 19.

Mae yn gwbl ddiammheuol oddiwrth yr ystyriaethau hyn, fod y fath sicrwydd yn gyrhaeddadwy yn y byd yma. Ond etto nid all yr enaid gael gafael arno mewn cyflwr difywyd, diymdrech, neu pan y mae mewn un peth yn esgeulusaw ei ddyledswydd. Mae rhyw lwybr neillduol, yn yr hwn, yn unig, y mae cael gafael yn y trysor gwerthfawr yma, sef llwybr dyledswydd; ac nid yw i ei gael mewn un llwybr arall. Pan mae, hyd yn nôd gwir gredadyn yn colli y llwybr yma, ac yn cwympo i gyflwr o ddirywiad neu farweidd-dra yn ei feddwl, mae yn ddiammheuol y cyll ei sicrwydd. Nid yw gwir hyder yn cael ei gynnal yn yr enaid, ond tra fyddo y credadyn yn cael ei gynnal mewn agwedd sanctaidd, a'i ras mewn gweithrediad gwresog. Pan y mae gweithrediadau gras yn adfeiliaw yn y credadyn, ac yntau yn syrthiaw i gyflwr difywyd, diymdrech, a diawch at ddyledswyddau crefyddol, nis dichon y cyfryw beidio a cholli ei sicrwydd.

Yr ydym yn clywed yn fynych y dylai Cristionogion fyw wrth ffydd, ac nid wrth olwg—a byw

Digitized by Google

ar Grist, ac nid ar eu profiadau. Mae yr athrawiaeth yma yn neillduol o bwysig, ac yn ardderchawg iawn, pan y byddo yn cael ei iawn ddeall, a'i gymhwyso yn addas: ond yn dra-niweidiol pan y byddo yn cael ei gam-ddeall, a'i gam-gymhwyso. Yr hyn mae yr ysgrythyrau yn ei feddwl wrth fyw neu rodio trwy ffydd, ydyw, bod ein calonau a'n bywydau dan lywodraeth gwir grediniaeth am bethau tragywyddol, y rhai sydd yn anweledig, ac nid dan lywodraeth y pethau amserol, ag yr ydym yn eu gweled â'n llygaid. Y dyn sydd yn byw wrth olwg, yw y dyn sydd â'i galon a'i ymddygiad yn cael eu heffeithiaw a'u llywodraethu yn benaf gan y pethau presennol, ag y mae ei lygaid yn eu gweled: ond y dyn sydd yn byw trwy ffydd, yw y dyn sydd â'i galon a'i ymddygiad yn cael eu heffeithiaw yn benaf, a'u llywodraethu gan bethau anweledig a thragywyddol, y rhai ag y mae yn edrych arnynt trwy ffydd. Yr oedd calon ac ymddygiad Moses yn cael eu heffeithiaw a'u llywodraethu yn benaf, nid gan drysorau yr Aipht, ag yr oedd yn eu gweled â'i lygaid, ond gan ogoniant Duw, dirmyg Crist, a thaledigaeth y gobrwy. Heb. 11. 24—28. Felly yr oedd Paul yn cyfrif ei holl gystuddiau yn fyr ac yn ysgafn, tra nad oedd yn edrych ar y pethau a welir, ond ar y pethau nid welir. 2 Cor. 4. 17, 18. A hyn a feddylir yn mhob man arall o'r ysgrythyrau, lle mae ffydd a golwg

yn cael eu rhoddi mewn cyferbyniad i'w gilydd. 2 Cor. 5. 7. Heb. 11. 1, 8, 13, 17, 29. Rhuf. 8. 24. Ioan 20. 29.

Ond mae lle i ofni, mai yr hyn y mae llawer yn ei ddeall wrth fyw trwy ffydd, yw credu eu bod mewn cyflwr da, neu yn meddiannu gwir ras, heb ddim bywyd na goleuni ysbrydol yn eu cyflwr: pan y byddont mewn tywyllwch, a than llywodraeth tymmer farwaidd, heb ddim gweithrediadau ysbrydol ar eu meddyliau, na dim cynhyrfiadau grasol yn eu calonau: Diau fod yn ddyledswydd ar y rhai sydd yn y cyflwr galarus hwn, i ddyfod allan o'r tywyllwch i'r goleuni, i gredu y'Nghrist fel pechaduriaid, ac yn ganlynol i gredu eu bod mewn cyflwr grasol. Ond mae yn afresymol ac yn anysgrythyrol, tra fyddo y credadyn yn aros yn y cyflwr tywyll difraw yma, iddo ddysgwyl boddlonrwydd am ei gyflwr. Nid yw yr ysgrythyrau yn sôn am un ffydd o weithrediad Duw, nad ydyw yn cynnwys ynddi oleuni a bywyd ysbrydol. Y credu sydd yn rhoddi hawl i fywyd tragywyddol, ydyw, "Gweled y Mab, a chredu ynddo." Ioan 6. 40. Mae gwir ffydd yn gweithredu trwy "edrych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych." 2 Cor. 3. 18. A thrwy gael "goleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn wyneb Iesu Grist." 2 Cor. 4. 6. Y rhai nad ydynt yn credu yw y rhai hyny, i gallnau pa rai ni thywynodd llewyrch efengyl gogon-

Digitized by Google

lant Duw, yn wyneb Iesu Grist, yr hwn yw delw Duw. 2 Cor. 4. 4. Y ffydd hòno sydd heb oleuni a bywyd ysbrydol ynddi, nid ffydd plant y goleuni yw, ond gwag hyder plant y tywyllwch.

Am hyny, peth cwbl anaddas yw annog dynion i gredu eu bod mewn cyflwr da, neu yn meddiannu gras cadwedigol, tra byddont yn aros yn y tywyllwch, ac mewn dall a thymmer farwaidd, gysglyd. Nid oes neb yn gweithredu gwir ffydd, ond yn ol y gradd y byddo yn meddiannu goleuni ysbrydol yn ei gyflwr. Nid oes neb yn ymddiried yn Nuw yn mhellach nag y mae yn ei adnabod. Gwir a chywir olwg ar, neu grediniaeth am, gyflawnder Iesu Grist, a digonolrwydd ei aberth, yn unig, a ddwg eneidiau i roddi gwir a chywir ymddiried ynddo: ac yn ganlynol i gredu, ar seiliau safadwy, eu bod mewn cyflwr grasol.

Yn sicr mae yn ddyledswydd ar y duwiolion i gredu yn y tywyllwch, a thra fyddont yn parâu yn y tywyllwch, mewn un ystyr; hyny yw, pan fyddo golygiadau rhagluniaeth yn ymddangos yn dywyll; pan mae anhawsderau mawr yn ymddangos yn ffordd yr addewidion i gael eu cyflawni; pan nad oes un amgylchiad yn rhoddi un dysgwyliad am gyflawniad yr addewid, ond yn unig gair yr Arglwydd. Dyma fel yr oedd ar Moses, wrth làn y Môr Coch: Nid oedd un lle iddo i obeithiaw am waredigaeth, ond gair Duw yn unig; ond yr oedd

Digitized by Google

pob peth yn ymddangos yn gwbl yn y gwrthwyneb. Dyma fel yr oedd ar Abraham pan y eredodd ar addewid Duw, yn unig, y byddai iddo fab o Sarah: Yr oedd pob amgylchiad yn erbyn iddo obeithiaw y deuai hyny i ben, ond yn unig addewid Duw. Mae yr apostol, yn Heb. 11, yn rhoddi hanes am amryw ag oedd yn meddiannu y fath ffydd fuddugoliaethus, fel ag yr oeddynt yn hyderu yn ddiysgog yn yr Arglwydd, pan yr oedd pob amgylchiad yn ymddangos yn gwbl yn eu herbyn. Ond yr wyf yn gobeithiaw fod pawb yn gweled gwahaniaeth mawr rhwng hyn a hyderu yn Nuw, neu i rai gredu eu bod mewn cyflwr grasol, heb ddim goleuni ysbrydol, a'u teimladau a'u tueddiadau yn farwaidd ac yn gnawdol.

Mae gan y rhai hyny sydd yn annog dynion i fyw trwy ffydd, heb ddim goleuni ysbrydol, na phrofiadau grasol, olygiadau anghywir am natur gwir ffydd. Yr hyn y maent yn ddeall wrth ffydd, ydyw, i un gredu yn ddiysgog ei fod mewn cyflwr grasol. Am hyny maent yn meddwl, mai pechod mawr yw i un ammeu ei gyflwr, beth bynag fyddo ei dymmer a'i ymddygiad, o herwydd mai pechod mawr yw anghrediniaeth. Ond nid yw y Bibl yn ein dysgu, mai hyny yw gwir ffydd, sef i un gredu yn ddiysgog ei fod mewn cyflwr da. Os hyn yw gwir ffydd, yr oedd gan y Phariseaid wir ffydd. Mae yr ysgrythyrau yn eglur ddangos, mai trwy

Digitized by Google

ffydd y mae dyn yn *dyfod i gyflwr da,* ac am hyny sicr yw, mai nid credu fod y dyn mewn cyflwr da eisoes, ydyw.

Mae llawer o le i ofni, pan mae amryw yn dywedyd, fod anghrediniaeth yn eu blino, ac yn achwyn yn drwm iawn arno, mai dyma yr hyn maent yn ei feddwl, sef eu bod yn ammhëuus iawn am eu cyflwr. Ond pan mae dynion mewn agwedd farwaidd, ac heb brofi gweithrediadau gras yn eu cyflwr, ond mewn mesur mawr dan lywodraeth eu trachwantau, a thymmer groes i dymmer Iesu Grist, mae yn addas iawn iddynt ofni eu bod mewn cyflwr drwg. Nid oes ganddynt un sail gyfreithlawn i fod yn hyderus am eu cyflwr. Mae mor anmhossibl i fod gobaith bywiol, neu wir hyder mewn nerth a dysgleirdeb yn ein cyflwr, yn yr amgylchiadau hyn, ag y byddai cadw goleuni mewn ystafell ar ol i'r ganwyll fyned allan; neu gadw dysglaer oleuni yn yr awyr ar ol i'r haul fachludo. Yn ol y graddau y byddo tywyllweh a marweiddra ysbryd a chwantau pechadurus yn ennill tir yn ein cyflwr, bydd hyder grasol a sanctaidd yn sicr o golli tir.

Nid yw yn anaddas i rai ofni am eu cyflwr, tra byddont fel hyn mewn ystâd o ddirywiad; ond yn weddus iawn i'r cyfryw ofni eu bod mewn cyflwr diras. Mae yn gyson â threfn ddoeth a thrugarog Duw i adael, hyd yn nôd i'w anwyl blant ei hun,

Digitized by Google

tra yn yr agwedd alarus yma, i ofni nad ydynt yn meddiannu gwir ras. Yr ofn yma sydd yn eu cadw mewn mesur rhag rhoddi rhwysg i'w trachwantau, ac yn eu cynhyrfu i ofalu am iechydwriaeth eu heneidiau. Mae Duw wedi sefydlu yn ddoeth, pan fyddo cariad yn codi yn yr enaid mewn gweithrediad gwresog, y bydd i ofn caethiwus golli y dydd a ffoi: oblegid ni bydd achos y pryd hwnw am ofn. Cariad, fel egwyddor fwy-ardderchawg yn ei natur, a nerthol yn ei gweithrediad, a gymhell yr enaid i bob dyledswydd. Ond pan fyddo cariad yn oeri, bydd ofn caethiwus yn ymgyfodi. Pan mae cariad yn yr enaid yn adfeiliaw, mae llygredd yn ennill tir, ac ofn a thywyllwch yn sicr o ganlyn: ond pan mae cariad yn adfywiaw, mae llygredd yn colli y dydd, a gobaith sanctaidd a hyder grasol yn cyfodi yn yr enaid, ac ofn caethiwus yn gorfod ffoi. Cariad yw yr ysbryd mabwysiad, neu y tuedd mabaidd, ag y mae yr Ysbryd Glân yn ei weithredu yn y cyflwr; a phan mae hwn yn adfeiliaw, neu yn colli y dydd, mae ysbryd caethiwed, neu ofn gwasaidd, yn sicr o ddyfod i mewn. A phan fyddo cariad, neu ysbryd mabwysiad yn gryf, mae yn gyru ysbryd caethiwed, neu ofn gwasaidd ymaith yn llwyr. "Nid oes ofn mewn cariad, eithr mae perffaith gariad yn bwrw allan ofn: oblegid y mae i ofn boenedigaeth. A'r hwn sydd yn ofni ni pherffeithiwyd mewn cariad." 1 Ioan 4. 18.

Digitized by Google

Am hyny, pan y byddo cariad y credadyn wedi oeri, a'i dymmer yn farwaidd ac yn gysglyd, heb ddim awch yn ei ysbryd at bethau Duw, ei chwantau a'i lygredigaethau yn dechreu ennill y dydd, nid yw ond yn gwbl ofer iddo edrych iddo ei hun, i ymofyn am seiliau i gredu ei fod yn meddiannu gwir ras. Tra byddo yn aros yn y cyflwr galarus hwn, mae yn llwyr anmhossibl iddo gael ynddo ei hun seiliau i gredu fod ganddo wir ras. Ei waith priodol yn awr, yw myned at Grist, yn bechadur euog a thruenus, fel y waith gyntaf erioed. Mae yn ymddangos mai yn debyg i'r un modd y mae i gredadyn ddyfod allan o ystâd o ddirywiad a chysgadrwydd ysbryd, ag y mae i bechadur ddyfod i ystâd o ras ar y cyntaf. Nid trwy edrych iddo ei hun, am seiliau o'i ras, ond trwy ddyfod yn deimladwy o'i gyflwr gresynol a thruenus, ac ar alwad yr efengyl i gredu yn Nghrist am iechydwriaeth.

Nid ffydd, ond rhyfyg, yw i ddyn gredu fod ei gyflwr yn dda, neu fod ganddo wir ras, pan mae yn y tywyllwch, heb brofi dim o weithrediadau grasol yr Ysbryd Glân ar ei enaid. Pan mae yn ddifater am ddyledswyddau crefyddol, neu mewn dyledswyddau yn ddifater am gael gwir fwynâad o Dduw; neu yn ddifater am rodio yn allanol, er clôd a gogoniant i Dduw; neu yn byw tan lywodraeth rhyw chwant pechadurus, nis dichon fod gwir hyder yn fyw yn ei gyflwr. Pa faint bynag o dangnefedd a

Digitized by Google

ddichon dyn ei gael yn y cyflwr yma, sicr yw, nad tangnefedd yn yr Ysbryd Glân ydyw. Mae EF yn Ysbryd glân a sanctaidd; ac mae ei dangnefedd yn sanctaidd, ac yn tueddu at sancteiddrwydd. Onid oes genym le mawr i ofni fod llawer yn ein gwlad yn twyllaw eu hunain yn echrydus? Mae rhai yn hyderus iawn am eu cyflwr o herwydd eu bod yn meddwl fod ganddynt lawer o rinweddau, a'u bod yn foesol a dichlynaidd yn eu rhodiad, heb un gradd o wir oleuni yn eu meddwl. Mae ereill yn fawr iawn dros athrawiaethau gras: —pan y maent yn clywed yr athrawiaethau gogoneddus hyn, sef Etholedigaeth, Prynedigaeth neillduol, Parâad mewn Gras, &c. yn cael eu pregethu, maent yn dangos arwyddion eu bod yn gwbl wrth eu bodd. Ond nid oes fawr o arwyddion bod eu tymmerau wedi eu sancteiddio, neu eu rhodiad yn cael ei ffurfio wrth air Duw.

Nid yw yn un sail bod gan ddynion wir ras, eu bod yn dra-hyderus am eu cyflwr. Pa mor fynych yr ydym wedi gweled rhai yn orfoleddus iawn, ac yn dywedyd yn y modd mwyaf diofn am eu hawl yn Nuw a'i iechydwriaeth, ac wedi hyny yn dangos yn fuan eu bod yn llwyr amddifaid o wir ras! Nid yw y rhagrithiwr mor dueddol i ofni am ei gyflwr ag yw y gwir gredadyn. Nid oes gan y rhagrithiwr yr un adnabyddiaeth o ddallineb a thwyll ei galon, ag sydd gan y gwir sant. Nid yw y diafol

Digitized by Google

chwaith, yn ymosod cymaint ar obaith y rhagrithiwr ag ar obaith y gwir gredadyn. Mae gan y diafol elyniaeth mawr at obaith y gwir gredadyn, nid yn unig am ei fod yn tueddu yn fawr i'w gysur a'i ddyddanwch, ond hefyd mae yn sanctaidd ac yn nefol yn ei natur, yn puraw y galon, ac yn tueddu at bob gweithred dda. Ond nid oes dim yn well wrth fodd y diafol, na gwag hyder y rhagrithiwr: oblegid nid oes un peth yn tueddu yn fwy i sefydlu ei lywodraeth yn ei enaid. Am hyny dichon rhagrithiwr gadw ei wag hyder holl ddyddiau ei fywyd, heb i Satan wneuthur un ymosodiad arno. Ond mae lle i feddwl, nad oes un gwir Gristion nad yw y diafol yn aml yn ymosod ar ei obaith. Yr oedd y diafol mor ëon, ag y darfu iddo ymosod ar Grist ei hun: "Os Mab Duw wyt ti:" ac nid yw y gwas yn fwy na'i arglwydd. Os felly y temtiodd y Pen mawr, a yw yn rhyfedd iddo demtio yr aelodau?

Yn mhellach, nid oes gan y rhagrithiwr yr un olwg ar lygredd ei galon ei hun, ag sydd gan y gwir gredadyn. Mae gan y gwir Gristion fil mwy i wneuthur â llygredd ei galon, nag sydd gan y rhagrithiwr: ac am hyny mae llygredd ei galon, a phechadurusrwydd ei fuchedd, yn ymddangos iddo yn eu lliw atgas a ffiaidd eu hunain. Y maent weithiau yn ymddangos yn dra-dychrynllyd i'w olwg. Mae yn beth rhyfedd yn ei olwg, yn aml,

Digitized by Google

y dichon fod peth gras, lle mae cymaint o lygredd. Ond mae gwag hyder y rhagrithiwr, fel gorchudd ar ei lygredd; am hyny mae yn ymddangos yn lân yn ei olwg ei hun.

Nis gellir dywedyd bod dynion yn ymadael â Christ, ac yn gwneuthur Crist o'u profiadau, pan y maent yn eu defnyddiaw i fod yn dystion o'u gras: Nid oes dim tystion ereill o ras i'w cael. Ond pan mae dynion yn gwneuthur cyfiawnder o'u profiadau, ac yn lle cadw eu golwg ar ogoniant Duw, ac ardderchogrwydd Iesu Grist, yn edrych ar ryw rinweddau ynddynt eu hunain, mae yn sicr eu bod yn gwneuthur Crist, neu ryw beth na ddylent, o'u profiadau. Mae y rhai'n yn edrych yn uchel ar eu profiadau, ac yn falch o'r pethau mawr sydd wedi dyfod i'w cyfarfod, a'r pethau mawr y maent wedi eu gwneuthur; ac yn ymwenieithiaw iddynt eu hunain, bod y pethau hyn yn ymddangos mor hardd yn ngolwg Duw, ag y maent yn eu golwg eu hunain; pan, mewn gwirionedd, nid oes dim y mae Duw yn ei ffieiddiaw yn fwy. Hyn yw byw ar brofiadau, yn lle ar Grist; ac nis gall fod un peth yn fwy atgas yn ngolwg yr Arglwydd.

Dichon fod llawer un yn barod i ddywedyd erbyn hyn, Nid wyf yn cael ond ychydig iawn o gysur a boddlonrwydd am fy nghyffwr: yr wyf yn ofni yn fynych fy mod yn amddifaid o wir ras, ac nad oes genyf hawl yn mendithion y cyfammod newydd.

Digitized by Google

Yr wyf yn dymunaw cael gwybod, pa fodd mae'r mi gael gwir gysur a boddlonrwydd, ar seiliau safadwy, fy mod mewn cyflwr grasol?---Mae yn ddiammheuol ei fod o'r pwys mwyaf i chwi gael boddlonrwydd am hyn. Ac mi gâf yn bresennol ymdrechu i roddi i chwi rai cyfarwyddiadau yn nghylch y mater pwysig yma.

Gwyliwch dreuliaw eich amser mewn achwyniadau dilês, yn lle bod yn ymofyn am nerthol weithrediadau gras yn eich enaid, yr hyn yn ddiau, yn benaf, yw eich dyledswydd. Achwyniadau dilesâad a digalon, a galar oblegid caledrwydd eu calon, a marweidd-dra eu hysbryd, ydyw agos sylwedd y broffes mae rhai yn ei wneuthur. Ar ol dywedyd llawer yn eu herbyn eu hunain, a dwyn llawer o ddadleuon i brofi nad ydynt yn meddiannu gwir ras, maent yn meddwl eu bod wedi cyflawni eu dyledswydd. Ond mae y pethau hyn yn gwbl groes i fywyd o ffydd. Mae yn sicr fod yn fuddiol i ni, pan byddom mewn cyfyngder ysbryd, mewn modd gonest, agor ein meddyliau wrth ryw gyfaill a fyddo yn meddu tafod y dysgedig, i lefaru gair mewn pryd wrth enaid diffygiol: A diammeu hefyd y gall fod yn fuddiol iawn i ni ddywedyd ein profiadau, megys ger bron Duw, mewn cyndeithasau neillduol, gyda ein brodyr a'n chwiorydd crefyddol: Ond i rai fod bob amser yn llenwi eu meddyliau a'u tafodau âg achwyniadau a

Digitized by Google

dadleuon yn erbyn eu hunain, heb ymdrechu i gymmysgu â ffydd yr hyn mae y gair yn ei ddywedyd er eu cysur a'u dyddanwch, sydd yn ymddygiad hollol feius, a chroes i natur gwir ras. Etto mae llawer yn ymfoddloni yn y fath arferiadau, fel pe byddai llawer o wir grefydd yn gynnwysedig ynddynt.

Ond pwy fantais sydd o'r holl bethau yma? Pa beth ennillodd Sion wrth ddywedyd, "Yr Arglwydd a'm gadawodd, a'm Duw a'm anghofiodd?" Neu pa beth yr ennillodd Iacob wrth ddywedyd, "Cuddiwyd fy ffordd oddiwrth yr Arglwydd, a'm barn a aeth heibio i'm Duw!" Yn ddiau yr oedd eu barn yn anghywir. Pa fodd yr oedd Dafydd yn cynhyrfu ei hun i obeithiaw yn yr Arglwydd, pan yr oedd yn teimlaw rhyw duedd i anobeithiaw. Ar ol dywedyd, megys mewn anobaith, "Paham yr anghofiaist fi? Paham y rhodiaf yn alarus trwy orthrymder y gelyn?" mae yn fuan megys yn ei geryddu ei hun: "Paham y'th ddarostyngir, fy enaid, a phaham y terfysgi ynof? Ymddiried yn Nuw, canys etto y moliannaf ef, sef iechydwriaeth fy wyneb a'm Duw." Ps. 42. 9, 11.

Rhaid i ni gan hyny ddywedyd wrth yr achwynwyr digalon yma, fel y dywedodd yr Arglwydd wrth Iosuah, "Cyfod, paham yr ydwyt yn gorwedd fel hyn ar dy wyneb?" A ellwch chwi wellâu eich cyflwr trwy gwyno ei fod yn ddrwg? Nid yw

Digitized by Google

eich achwyniadau yn tueddu, yn y mesur lleiaf, i'ch dwyn i sefyllfa well. Nid yw cwyno yn unig, eich bod yn amddifaid o faddeuant pechodau, yn foddion wedi eu sancteiddio i chwi gael maddeuant pechodau. Nid ydych yn ymddwyn felly mewn pethau naturiol. Pan y byddoch mewn cyfyngder, nid ydych yn ymfoddloni drwy gwyno ac achwyn yn unig; ond drwy ddefnyddio pob moddion addas, ac ymegnïaw i ddyfod allan o'ch cyfyngder. Pe byddai arnoch ddiffyg am ryw beth perthynol i'r bywyd yma, ni foddlonech eich hunain byth drwy gwyno yn unig bod arnoch eisieu y cyfryw beth; ond drwy ddefnyddio y moddion a fyddai yn ymddangos debycaf i'ch dwyn mewn meddiant o hono: Pa faint mwy y dylech ymegnïaw yn sanctaidd, a defnyddio y moddion y mae Duw wedi eu sefydlu tuag at gael cysur i'ch heneidiau.

Peidiwch ag ymgynghori yn unig â'ch calonau eich hunain. Pa beth y mae gair Duw yn ei ofyn oddi wrthych yn eich sefyllfa bresennol? Onid bywiogrwydd ysbryd, a phob diwydrwydd yn yr ymarferiad o'r moddion a sefydliwyd er eich gwaredigaeth? Cyfyngder, os na bydd yn anobeithiol, sydd yn ddiau yn galw am ymegnïad i ddyfod allan o hono. Os yw eich cyflwr yn anobeithiol, pa beth a dâl i chwi gwyno? Ond os nad ydyw, paham yr ydych yn ymroddi i ddigalondid? Mae ein

Digitized by Google

Hiachawdwr yn ein dysgu, fod "teyrnas nefoedd yn dyoddef trais, ac mai treiswyr sydd yn ei chipio hi." Mat. 11. 12. Mae ein Harglwydd yn meddwl trais ysbrydol, sef ymegnïad sanctaidd ac efengylaidd, i gael rhan a hawl yn mendithion ysbrydol y deyrnas. Cymhwyswch hyn at eich cyflwr eich hunain. A ydych chwi mewn dyfnderoedd o ammheuon ac ofnau, heb wybod pa beth yw eich cyflwr? A ydych mewn tristwch mawr o eisieu gwybod bod genych hawl i'r maddeuant sydd gyda Duw? A ydych yn cael eich terfysgu i fynu ac i lawr rhwng gobaith ac ofnau, heb brofi nemawr o dangnefedd, dyddanwch, na sefydliad? Paham yr ydych yn gorwedd ar eich hwynebau? Cyfodwch, gwiliwch, gweddïwch, darllenwch, myfyriwch, gwrthwynebwch eich chwantau pechadurus, eich diogi, a'ch musgrellni ysbrydol; glynwch wrth orsedd gras, yn ddirgel ac yn gyhoeddus:—dyma y ffordd i dreisiaw teyrnas nefoedd—y fath dreiswyr a hyn sydd yn ei chipio hi. Nid yw y pethau hyn, ynddynt eu hunain, yn heddwch, nag yn sicrwydd, ond y moddion mae Duw wedi eu trefnu i gael gafael ar heddwch a sicrwydd.

Pa beth, gan hyny, yw yr addysg sydd yn briodol i'w rhoddi i eneidiau yn y cyflwr hwn? Yn ddiau yr hyn ag y mae yr apostol yn ei roddi:—"Byddwch ddiwyd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch hetholedigaeth yn sicr." Ond pa fodd y mae i

Digitized by Google

ni wneuthur hyn? Mae yr apostol yn ein cyfarwyddaw: " A hyn yma hefyd, gan roddi cwbl ddiwydrwydd, chwanegwch at eich ffydd, rinwedd; ac at rinwedd, wybodaeth; ac at wybodaeth, gymmedrolder; ac at gymmedrolder, amynedd; ac at amynedd, dduwioldeb; ac at dduwioldeb, garedigrwydd brawdol; ac at garedigrwydd brawdol, gariad. Canys os yw y pethau hyn genych, ac yn aml hwynt, y maent yn peri na byddoch na segur, na diffrwyth y'ngwybodaeth ein Harglwydd Iesu Grist."—Gwelwn yma, yn eglur, mai trwy roddi cwbl ddiwydrwydd i chwanegu y naill ras at y llall, ac i amlâu eu gweithrediadau, mae i ni wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr. Ac mae yr apostol yn chwanegu, " Canys *felly* yn helaeth y trefnir i chwi fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist." Wrth yr helaeth fynediad i mewn yma, mae yr apostol yn meddwl, nid yn unig helaeth fynediad i mewn i ddyddanwch nefol yn y diwedd, ond helaeth fynediad i mewn i fwynâad cysurus a boddlonol o fendithion ysbrydol teyrnas Iesu Grist yn y byd yma. Mae yn dywedyd am y dyn nad ydyw yn rhoddi pob diwydrwydd yn y pethau hyn, ei fod yn " ddall, heb weled yn mhell, wedi gollwng dros gof ei lanâu oddiwrth ei bechodau gynt." Mae hyn yn ddiammeu yn golygu ei fod yn y tywyllwch am ei gyflwr, ac felly yn gwbl ddigysur. Gwel 2 Pet. i. 5,——12.

Digitized by Google

Dyma y cynghor a'r cyfarwyddyd mae yr Ysbryd Glân yn eglur roddi, i'r dyben i ni gael boddlonrwydd am ein cyflwr. Ac nis dichon neb gael boddlonrwydd am ei gyflwr, ar seiliau safadwy, na gwir ddyddanwch i'w enaid, mewn un ffordd arall.

Ond fe allai y dywedwch, Yr ydym mor farwaidd a dideimlad, a chymaint dan rym ein llygredd, a themtasiynau, fel nad allwn, yn y modd yma, weithredu yn rasol. Ond a ydych chwi yn rhoddi pob diwydrwydd? A ydych yn ddiwyd *bob* amser, yn *mhob* ffordd mae Duw wedi ei sefydlu, yn dufewnol ac yn allanol, yn ddirgel ac yn gyhoeddus, i'r dyben hwn? A ydych yn astudio, myfyrio, gwilio, heb esgeuluso un cyfleusdra, cadw eich calonau, holi eich hunain, dianc rhag temtasiynau, a phob peth a fyddo yn tueddu i oeri, neu i attal gweithrediadau gras? A ydych yn amlâu y pethau hyn? Och, fe ddichon nad oes genych ddim tuedd at y pethau hyn—ni fynwch ymadael â'ch esmwythdra cnawdol—nid ydych yn ewyllysiaw croeshoelio eich nwydau llygredig. Ond mae yn rhaid i chwi roddi pob diwydrwydd yn y pethau hyn; ac onidê, rhaid i chwi foddloni i dreuliaw eich holl ddyddiau mewn tywyllwch, ammheuaeth, a galar.

Fel hyn yn fynych mae dynion yn colli y dydd. Yn aml clywn ddynion yn cwynaw ac yn galaru oblegid llygredd ac ynfydrwydd eu calonau yn y bore a'r hwyr, ac etto yn rhoddi eu hunain yn

Digitized by Google

agored i bob temtasiynau drwy gydol y dydd, heb na gwyliadwriaeth na gweddi. Ai y modd yma mae rhoddi pob diwydrwydd? Ai dyma y ffordd i ni weithiaw allan ein hiechydwriaeth trwy ofn a dychryn? Onid allwn yn fynych weled proffeswyr yn ymfoddloni mewn balchder, digter, cenfigen, diogi ysbrydol, bydolrwydd, a phethau cyffelyb, ac yn byw yn yr esgeulusiad eglur o ddyledswyddau gorphwysedig arnynt; ac etto yn cwynaw eu bod yn ddigysur ac yn dra ammhëus am eu cyflyrau. Ac fe ddichon y byddant, yn eu meddwl, yn barod i feiaw ar eu gweinidogion, o achos nad ydynt yn llefaru y pethau hyny ag y fyddai yn eu cysuro. Ond na atto Duw i neb llefaru cysur iddynt, tra yn yr agwedd hon, nag iddynt hwythau beidio ag ofni eu bod mewn cyflwr drwg! Na atto Duw iddynt lefaru heddwch iddynt eu hunain! Nid oes dim gwir heddwch yn perthyn iddynt yn awr. Nid gwiw i'r cyfryw edrych yn bresennol i ymofyn am gysur oddiwrth anghyfnewidioldeb cariad Duw, sicrwydd y cyfammod newydd, parâad mewn gras, &c. Eu holl gysur yn bresennol yw, bod yr Arglwydd yn galw arnynt yn drugarog, fel pechaduriaid euog a thruenus, i gredu y'Nghrist am fywyd ac iechydwriaeth. Mae ganddo lais neillduol yn y gair at wrthgilwyr: "Ymchwelwch, feibion gwrthnysig, a mi a iachâf eich gwrthnysigrwydd chwi." Ier. 3. 22.- -" Meddyg-

Digitized by Google

iniaethaf eu hymchweliad hwynt, caraf hwynt yn rhad: canys trodd fy nig oddi wrtho." Hos. 14. 4. ---" Ond ti a buteiniaist gyda chyfeillion lawer; etto dychwel ataf fi." Ier. 3. 1.---" Ei ffyrdd a welais, a mi aii iachâf ef: tywysaf ef hefyd, ac adferaf gysur iddo, ac i'w ālarwyr." Esa. 57. 18. Mae anfeidrol radlonrwydd yn yr addewidion a'r galwedigaethau hyn—maent yn rhoddi calondid mawr i'r enaid sydd yn deimladwy o'i wrthgiliad dirgel neu gyhoeddus, i ddychwelyd at Dduw: ac ar ol dychwelyd ato, a chredu y'Nghrist, gyda golwg newydd, gymhwysiadol, ar rinweddau ei waed a'i eiriolaeth am dderbyniad, gall dynu cysur a dyddanwch oddiwrth anghyfnewidioldeb cariad Duw, sicrwydd y cyfammod gras, &c. ond nid cyn hyny. Mae lle i ofni, fod rhai sydd mewn tymmer farwaidd, gysglyd, a than lywodraeth eu chwantau pechadurus, yn cymeryd rhyw fath o gysur yn y pethau uchod; ond mae yn sicr mai nid gwir gysur yw, ond cysur twyllodrus. Oblegid mae y gwir gysur, sydd yn tarddu oddiar iawn olwg ar y pethau hyn, yn tueddu mewn modd grymmus i sancteiddio a phuro yr enaid, megys ag y mae Duw yn bur.

At y diwydrwydd hwn, gan hyny, mae yn rhaid i'r enaid ddyfod, ag sydd am gael ei wared allan o gyflwr o ofnau, tywyllwch, ac ammheuon, i fwynâu hyder sanctaidd, a gorfoledd hyfryd yn yr Arglwydd. Rhaid i esgusodion ofer gael eu gadael

Digitized by Google

heibio; ac onidê, ni cheir dim gwir dangnefedd a gorfoledd. Cawn siampl nodedig o hyn y'nghyflwr yr eglwys, Can. 5. 2,—8. Mae hi yn gysglyd; ac nid oes ynddi duedd i gymdeithasu â'i phriod, er ei fod, yn y modd mwyaf serchiadol, yn galw arni i gymdeithasu âg ef. Mae hyn yn peri iddi ymesgusodi: "Diosgais fy mhais," medd hi, "pa fodd y gwisgaf hi? golchais fy nhraed, pa fodd y diwynaf hwynt?" Am hyny mae ei phriod yn myned ymaith, ac yn ei gadael mewn cyflwr tywyll, digysur. Ond pa beth y mae hi yn ei wneuthur yn ei gofid a'i thristwch? A ydyw hi yn gorwedd i lawr mewn diogi a musgrellni? neu a ydyw yn ymesgusodi ei hun fel o'r blaen? Nag ydyw; ond mae yn cyfodi, ac yn y modd mwyaf gwresog, yn myned i ymofyn am ei hanwylyd. Mae yn rhoddi pob diwydrwydd i gael gafael arno; ac ni fu ei hymofyniad ddim yn ofer, ond hi a'i cafodd. Yr un modd rhaid i bawb wneuthur ag sydd am fyw y'nghymdeithas melus â Iesu Grist, ac mewn goleuni a boddlonrwydd o'i hawl yn mendithion y cyfammod gras. Nis dichon gwir heddwch a diogi ysbrydol gyd-drigo yn yr un enaid.

DIWEDD.

Bala: argraffedig gan R. Saunderson.

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google

Digitized by Google